**COFNODION DRAFFT y Grŵp Trawsbleidiol ar HAEMOFFILIA A GWAED HALOGEDIG**
**Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod**
23 Hydref 2013
Ystafell Gynadledda C
Noddwyd gan Julie Morgan AC

**AGENDA**
**Cadeirydd: Julie Morgan AC**
**12:15:** Agoriad – Julie Morgan AC
**12:15-12:20:** Sylwadau rhagarweiniol – Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
**12:20-12:25:** Y cynnydd hyd yma – Lynne Kelly, Y Gymdeithas Haemoffilia
**12:25-12:45:** Cwestiynau a sylwadau o'r llawr
**12:45-1:25:** Trafodaeth

**TRAFODION**

- Agorodd Julie Morgan AC y Cyfarfod Blynyddol/cyfarfod.

- Etholwyd Julie Morgan AC yn Gadeirydd ac etholwyd Lynne Kelly o'r Gymdeithas Haemoffilia yn Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol.

- Diolchodd Julie Morgan i bawb am fod yn bresennol a chyflwynodd Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Dechreuodd y Gweinidog drwy ddweud nad oedd unrhyw arian ychwanegol ar gael yng nghyllideb y GIG yng Nghymru. Dywedodd ei fod wedi ailgynnull y Grŵp Gorchwyl a Gorffen dan gadeiryddiaeth Dr Chris Jones, Dirprwy Brif Gyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru, ym mis Mai er mwyn sicrhau y byddai argymhellion yr Adolygiad Haemoffilia yn cael eu rhoi ar waith. Dywedodd y byddai'r Grŵp Cynghori Cymru Gyfan, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Cynllunio Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, yn parhau i fynd i'r afael â materion sydd heb eu datrys.

- Diolchodd Lynne Kelly i'r Gweinidog ar ran y Gymdeithas Haemoffilia a'r cleifion, am gytuno i fod yn bresennol mewn cyfarfod agored a rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau, rhywbeth na wnaethpwyd gan Weinidogion Iechyd blaenorol.

- Rhoddodd Lynne Kelly y cefndir hanesyddol i'r materion a godwyd gan y cleifion, amlinellodd y materion a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, cadarnhaodd y cynnydd a wnaed, ailadroddodd y materion a oedd heb eu datrys, ac amlinellodd y llwybr yr hoffai'r grŵp cleifion i'r Gweinidog ei gymryd.

- Ymatebodd y Gweinidog i amryw o gwestiynau a godwyd gan y cleifion ac aelodau o'u teulu. Roedd y rhain yn ymwneud â phenodi Hepatolegydd Ymgynghorol, y diffyg mynediad at farn arbenigol, y problemau o gael eich trin gydag urddas ac yn gyfrinachol, y sefyllfa'n ymwneud ag ail haematolegydd a ffisiotherapydd haemoffilia yn Abertawe, a'r mater o Ymchwiliad Cyhoeddus.

- Cadarnhaodd y Gweinidog:

1) Mae'r cyllid bellach ar gael ar gyfer Hepatolegydd Ymgynghorol yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd a chaiff y swydd ei hysbysebu yn y man. Mae'r manylion yn cael eu cwblhau.
2) Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ganolfan arbenigol yng Nghymru - bydd swyddogion yn cyfarfod â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i benderfynu sut y caiff hyn ei ddatblygu.
3) Byddai'n edrych ar y cynnydd gyda ffisiotherapi a materion yn ymwneud â chyfrinachedd cleifion a llety yn Ysbyty Singleton.
4) Byddai'n codi'r materion yn ymwneud â chymorth ariannol a mynediad at MacTrust, Skipton a Caxton pan fydd yn bresennol mewn cyfarfod gyda Jenny Randerson, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru.
5) Byddai'n ymgynghori â gweinyddiaethau datganoledig eraill pan gyhoeddir Adroddiad Penrose y flwyddyn nesaf.
6) Ni fyddai'n cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus Cymreig i heintio haemoffiliaid o Gymru.
7) Byddai'n fodlon cyfarfod yn flynyddol â'r Grŵp Trawsbleidiol a byddai'n cynnig ail gyfarfod yn ystod y flwyddyn gydag uwch swyddog.

- Pan adawodd y Gweinidog, gwahoddodd Julie Morgan gwestiynau a sylwadau o'r llawr.

DRAFT